| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **16 Ebrill 2013** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Hugh Evans, Aelod Cabinet Datblygiad Economaidd, Y Cynghorydd Huw Jones, Aelod Cabinet Twristiaeth, Hamdden ac Ieuenctid (gan gynnwys Datblygiad Gwledig)** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Siân Morgan Jones** |
| **Teitl:** | **Ymgynghoriad ar Arian Strwythurol Ewropeaidd 2014–2020: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Diwygiad Polisi Amaethyddol Cyffredin Cynllun Datblygu Gwledig 2014-2020: Camau Nesaf** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn ymwneud ag ymatebion Cyngor Sir Ddinbych i Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar y Rhaglenni Arian Ewropeaidd newydd ar gyfer 2014-2020.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae Swyddogion ac Aelodau Cyngor Sir Ddinbych allweddol gan gynnwys aelodau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, y Bartneriaeth Cynllun Datblygu Gwledig a'r Grŵp Gweithredu Lleol wedi darparu ymateb drafft i Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar Raglenni Arian Ewropeaidd 2014-2020. Gofynnir i'r Cabinet gadarnhau eu cefnogaeth ar gyfer yr ymatebion hyn ar ran y Cyngor Sir.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Cadarnhau cefnogaeth ar gyfer ymatebion Cyngor Sir Ddinbych i Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar Arian Strwythurol Ewropeaidd 2014–2020: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd; a Diwygiad Polisi Amaethyddol Cyffredin Cynllun Datblygu Gwledig 2014-2020: Camau Nesaf.

## 4. Manylion yr adroddiad.

Ym mis Ionawr 2013, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriadau cyhoeddus cyfochrog ar Arian Strwythurol a Rhaglenni Datblygu Gwledig 2014-2020.

Mae'r dogfennau ymgynghori yn cynnwys strategaeth rhaglen fwriedig, blaenoriaethau buddsoddi, themâu sy'n trawstorri, archwilio rhai o'r materion gweithredu a darparu allweddol a chynnwys y dystiolaeth. Mae'r cynigion ar gyfer rhaglenni Cronfa Strwythurol newydd wedi'u datblygu gan ganolbwyntio ar dwf a swyddi, sydd yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, a nodau Ewrop 2020 sef twf doeth, cynaliadwy a chynhwysol.

Ar gyfer cyfnod rhaglennu 2014-2020 disgwylir y bydd Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn cymhwyso fel "rhanbarth llai datblygedig": y lefel cefnogaeth uchaf sydd ar gael dan rownd nesaf y rhaglenni Arian Strwythurol.

Mae'r union swm arian Ewropeaidd fydd ar gael yn y cyfnod rhaglennu nesaf yn amodol ar ganlyniad trafodaethau ar gyllideb Ewropeaidd gan y Cyngor Ewropeaidd a Senedd Ewrop.

Bydd ymatebion i'r cwestiynau ymgynghori yn chwarae rhan bwysig wrth baratoi testun terfynol y Rhaglenni Gweithredol y bydd LIC yn eu cyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd yn ddiweddarach yn 2013.

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi ymateb i'r ymgynghoriadau er mwyn sicrhau, yn ogystal ag alinio â pholisïau LIC ac Ewrop, bod y dogfennau Rhaglen Weithredol terfynol yn ein galluogi i gyflawni camau gweithredu o fewn Blaenoriaethau Corfforaethol Sir Ddinbych. Bydd ymatebion CSDd hefyd yn cael eu cynnwys mewn ymateb rhanbarthol sy'n cael ei ddrafftio ar ran Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a bydd hefyd yn cael ei gyflwyno i CLILC i ffurfio rhan o'u hymateb Cymru gyfan.

Mae ymatebion Ymgynghoriad CSDd wedi'u hatodi i'r adroddiad hwn fel atodiadau.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi datblygu'r economi fel blaenoriaeth. Mae arian Strwythurol a Datblygu Gwledig yn bethau allweddol fydd yn galluogi'r Sir i gyflawni'r uchelgais hon.

Mae'r rhaglenni newydd yn cynnwys cyfleoedd i ddatblygu gweithlu gyda sgiliau o safon uchel, gwelliannau isadeiledd rhwydwaith gan gynnwys cysylltiadau digidol a chludiant, cyfleoedd swyddi, cefnogi busnes a gwasanaethau cynghori

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Does dim costau yn deillio yn uniongyrchol o gefnogi'r ymatebion ymgynghori ar gyfer Arian Strwythurol neu Gynllun Datblygu Gwledig 2014-2020 ac nid oes chwaith unrhyw ganlyniadau ar gyfer gwasanaethau eraill. Bydd angen i unrhyw un o'r prosiectau neu bartneriaethau bwriedig sydd ddim eisoes wedi'u cytuno gael eu hystyried trwy'r prosesau statudol neu gynllunio busnes perthnasol ar yr adeg briodol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad? Dylid cynnwys yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.**

Mae'r grŵp Aelodau a Swyddogion Allweddol wedi trafod yr ymatebion ymgynghori a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn.

Cynhelir ymarferion ymgynghori pellach wrth i gyfleoedd ariannu gael eu datblygu.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

Cynhaliwyd gweithdy ar gyfer swyddogion ac aelodau ar 20 Mawrth 2013 i amlinellu datblygiadau polisi Ewropeaidd hyd yma ac effeithiau posibl trafodaethau Cyllideb Ewrop ar Sir Ddinbych; a gan ystyried y cyd-destun polisi hwn, amlinellu pwrpas a phwysigrwydd ymateb i ymgynghoriadau LlC ar Raglenni Ewropeaidd newydd 2014-2020.

Cymerodd swyddogion ac Aelodau allweddol ran yn y sesiwn gweithdy, gan gynnwys aelodau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Partneriaeth Cynllun Datblygu Gwledig ac aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol Gwledig.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Amherthnasol

## 10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Y risgiau sy'n gysylltiedig â pheidio cyflwyno ymateb i Ymgynghoriadau LlC yw

- Methu sicrhau bod Rhaglenni Gweithredol Ewropeaidd yn gallu darparu yn erbyn blaenoriaethau lleol
- Y potensial o ddatblygu prosiectau heb eu cydlynu gydag ychydig iawn o fanteision lleol neu fanteision aneglur

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn rhoi pŵer i'r Cyngor wneud unrhyw beth y mae'n credu sy'n debygol o hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr ardal.